# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Lleoliad Allanol**

Dyddiad: Dydd Gwener, 6 Gorffennaf 2018

Amser: 11.02 - 13.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5214

# Yr Hen Goleg, Aberystwyth

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Mike Hedges AC<br>Dai Lloyd AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC<br>David J Rowlands AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru<br>Jason Thomas, Llywodraeth Cymru<br>Mari Stevens, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kathryn Thomas (Ail Glerc)<br>Ben Stokes |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniw, Jayne Bryant, John Griffiths, Lynne Neagle a Bethan Sayed.

## 2 Sesiwn i Graffu ar Waith y Gweinidog - Y Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Prif Weinidog ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â Strategaeth Llywodraeth Cymru (Partneriaeth ar gyfer Twf), cefnogaeth i fusnesau bach ac effaith Brexit, gan gynnwys tegwch o ran symudiad pobl.

2.2 Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am:

- pryd y bydd canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb i ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin yn cael eu cyhoeddi a beth fydd y camau nesaf;
- unrhyw ddiweddariad i'r cynllun gweithredu sy'n sail i'r Bartneriaeth ar gyfer Twf, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, am weddill y strategaeth; ac
- ymchwil i broffil ymwelwyr safleoedd Cadw.

## 3 Sesiwn i Graffu ar Waith y Gweinidog - Materion Amserol

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Prif Weinidog ar faterion amserol.

### 4.1 PTN 1 - Ymateb gan y Prif Weinidog yn dilyn y cyfarfod ar 16 Chwefror 2018

Nodwyd y papur.

### 4.2 PTN 2 - Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 i roi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Nodwyd y papur.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth o'r sesiwn flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiynau blaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.